Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cyllideb 2026-27

Tachwedd 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cyllideb 2026-27

Tachwedd 2025

senedd.cymru



# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 7
2. Y Gyllideb .......... 8
3. Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig .......... 12
4. Staffio .......... 13
5. Cyllidebau nad ydynt yn rhai staff .......... 15
6. Diwygio'r Senedd .......... 16
7. Bae 32 .......... 18
8. Cronfa Prosiectau .......... 19
9. Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad .......... 21
10. Cynaliadwyedd .......... 22
11. Cyfathrebu ac Ymgysylltu .......... 24
12. Llywodraethiant a Rheolaeth Ariannol .......... 26
13. Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau .......... 27
14. Cwmpas y gyllideb .......... 29

Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb .......... 30

Atodiad 2: Manylion y Gyllideb .......... 32



# 1. Cyflwyniad

## Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb sylweddol. Maent yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cytuno ar drethi yng Nghymru. Yn ei dro, mae'r Comisiwn yn darparu'r sgiliau arbenigol, y gwasanaethau cymorth a'r adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli.

Hoffai'r Comisiwn dalu teyrnged i Hefin David, a fu'n Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant ac a fu farw, yn drist iawn, ym mis Awst 2025.

Yn Gomisiynydd Cyllid, roedd yn wybodus, yn gefnogol ac yn angerddol am waith y Comisiwn ac am sicrhau'r adnoddau sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau seneddol rhagorol i Aelodau o'r Senedd.

# 2. Y Gyllideb

**Cyfanswm cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2026-27 yw £102.672 miliwn ac mae'n darparu ar gyfer:**

- **Gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys Cronfa Prosiectau (y gyllideb weithredol);**
- **Tair cyllideb wedi'u clustnodi;**
  - **Gwariant sy'n ymwneud â gwaith paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd;**
  - **Prosiect llety yn y dyfodol (Bae 32); a**
  - **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad.**
- **Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);**
- **Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;**
- **Y gyllideb ar gyfer costau clercio, gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;**
- **Y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau;**
- **Y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EF (Cost Cyllid Pensiwn).**

2026-27 yw blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd. Felly, hon yw'r gyllideb gyntaf i gefnogi'n llawn Senedd a fydd yn cynnwys 96 o Aelodau. Cafwyd buddsoddiad sylweddol yn yr ystad dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf i ddarparu ar gyfer yr Aelodau ychwanegol, drwy ddarparu lle swyddfa yn Nhŷ Hywel ac ailwampio'r Siambr.

Aeth Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethiant, ynghyd â swyddogion, ati i ddatblygu'r gyllideb hon i sicrhau ei bod yn gadarn, yn adlewyrchu barn yr Aelodau ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Mae 2026-27 yn flwyddyn ag etholiad. Felly, mae nifer o gostau yn codi'n uniongyrchol, y mae rhaid gwneud darpariaeth gyllidebol ar wahân ar eu cyfer.

Prif ddiben hyn yw talu costau dirwyn i ben swyddi Aelodau nad ydynt yn cael eu dychwelyd, ar ffurf grantiau ymaddasu a thaliadau dirwyn i ben i Aelodau a thaliadau dileu swydd i'w staff. Mae hon yn ddarpariaeth wedi'i chlustnodi; bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd elfen o'r gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r etholiad yn y mis blaenorol ac Agoriad swyddogol y Senedd, a ddisgwylir yn yr hydref.

Mae'r Comisiwn yn addasu'r ddwy raglen waith gan fod y gwaith paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd bellach bron wedi'i gwblhau, ac mae'n barod i roi cymorth i'r Senedd estynedig. Mae'r cyllidebau yn parhau i gael eu clustnodi i helpu gyda thryloywder. Mae Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i ddychwelyd unrhyw gyllid nas defnyddiwyd o fewn y symiau hyn sydd wedi'u clustnodi i Gronfa Gyfunol Cymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn o symleiddio strwythurau newid y Comisiwn, prosiect Bae 32 i sicrhau llety swyddfa i'r Comisiwn ar ddiwedd y les bresennol yn 2032 yw'r prosiect mawr sydd ar ôl yn y rhaglen Ffyrdd o Weithio. Dylai'r opsiwn a ffefrir ar gyfer llety fod yn hysbys ar ddiwedd 2025 yn seiliedig ar yr ateb sy'n bodloni gofynion y Comisiwn orau ac sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Mae'r costau amcangyfrifedig yng nghyllideb 2026-27 yn cyfeirio at symud drwy gam nesaf y broses yn unig; nid oes unrhyw fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei dybio ar hyn o bryd. Mae costau dangosol yn y dyfodol ar gyfer unrhyw ganlyniad llety terfynol hefyd wedi'u heithrio hyd nes y cadarnheir yr ateb a ddewisir a'r amserlen gysylltiedig a fydd yn gymwys. Bydd cynghorwyr proffesiynol allanol yn asesu'r costau posibl hyn yn drylwyr wrth baratoi Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn terfynol. Nod y Comisiwn yw sicrhau bod y prosiect yn cael yr arian i fynd rhagddi, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr yng Nghymru.

Mae'r gyllideb hon yn gyson â Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) y Comisiwn, ac mae'n sefydlu egwyddorion o ran adnoddau ac egwyddorion ariannol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Nod yr MTRF yw rheoli unrhyw dwf cyllidebol dros amser, drwy sicrhau bod yr adnoddau presennol yn cael eu defnyddio yn fwy effeithlon byth. Mae hefyd yn ceisio amlygu pwysau cyllidebol yn y dyfodol ac yn cynnig strategaethau ar gyfer eu rheoli. Bu disgwyl y cynnydd hwn yn y gyllideb yn 2026-27 yn y ddau gylch cyllidebol diwethaf.

Ni fydd strwythur Busnes ar gyfer y Seithfed Senedd yn hysbys nes i ni gyrraedd blwyddyn ariannol 2026-27; ni fydd y Pwyllgor Busnes newydd yn gwneud penderfyniadau yn hyn o beth ond ar ôl i'r flwyddyn ariannol newydd ddechrau. Felly, mae'n heriol amcangyfrif yr angen am adnoddau ar gyfer y cyflwyniad

cyllidebol hwn yn gywir. Felly, mae'r dull o glustnodi cyllidebau wedi'i gynnal ac mae'n seiliedig ar y 'Mwyaf' o'r ddau senario o fewn fframwaith Asesu Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol Diwygio'r Senedd a oedd yn tybio'r cynnydd mwyaf i Fusnes y gellid ei gefnogi cyn i fanteision disgwyliedig y Senedd fwy gael eu negyddu.

Yn benodol, mae hyn yn golygu tri phwyllgor ychwanegol ac un cyfarfod llawn ychwanegol. Os yw'r penderfyniadau a wneir yn y Seithfed Senedd yn anghyson â'r cynllunio hyd yma, bydd y gofynion o ran adnoddau yn cael eu hailystyried, a bydd y gyllideb yn cael ei hailgyfrifo yn unol â hynny gyda chyllid nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Wrth bennu'r elfen hon o'r gyllideb, rhoddwyd ystyriaeth i'r dyddiadau y byddai'r swyddi hyn yn dod yn gwbl angenrheidiol a'r pwyntiau cyflog tebygol ar gyfer aelodau staff sy'n cael eu recriwtio i'r rolau hynny.

Mae'r gyllideb sy'n ymwneud â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'i phennu yn seiliedig ar broffil gwariant yn 2026-27 sy'n cydnabod y bydd mwyafrif yr Aelodau yn newydd ac y bydd yn cymryd amser i sefydlu eu swyddfeydd a recriwtio staff cymorth, yn ogystal â'r ffaith na fydd yr Aelodau hynny sy'n sefyll i lawr yn cael eu talu yn ystod y diddymiad.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cronfa Prosiectau £2 filiwn. Mae hyn ar wahân i gostau rhedeg y Comisiwn o ddydd i ddydd ac i raddau helaeth mae'n ariannu prosiectau seilwaith i gynnal a chadw'r ystad a'r systemau TGCh yn ogystal â phrosiectau eraill ar wahân na ellir talu amdanynt o gyllidebau gwasanaeth, megis meddalwedd arbenigol newydd. Mae'r Gronfa Prosiectau wedi gostwng £0.5 miliwn ers 2025-26 ond mae'n dal i fod yn rhy fawr o ran y prosiectau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'w hystyried ac a fydd yn cael eu rheoli'n rhagweithiol ac yn ddeinamig i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r elfen o'r gyllideb sy'n ymwneud â busnes y Comisiwn o ddydd i ddydd (y gyllideb weithredol) wedi cynyddu 3.07% ers cyllideb ddiweddaraf 2025-26. Mae hyn yng nghyd-destun lefel y datchwyddydd cynnyrch domestig gros o tua 4%. O ystyried y costau ychwanegol posibl a ddisgwylir yn 2026-27, wedi'u seilio ar y senario 'mwy' o gynnydd ym Musnes y Senedd a'r gwaith parhaus i sicrhau llety i'r Comisiwn ar ôl 2032 a'r costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad, y cynnydd llawn yn y gyllideb yw 21.34% ar y cyfan.

Mae hyn yn lefel uchel o dwf ond mae'n gyson â'n honiadau blaenorol y byddai angen i'r gyllideb ar gyfer Comisiwn y Senedd gynyddu mewn rhai meysydd i gefnogi Senedd fwy.

Mae'r ymrwymiad i gyfyngu ar dwf cyllidebol ar gyfer elfennau craidd y gyllideb yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y Comisiwn i gydnabod y pwysau ar bwrs y wlad. Yn dilyn sawl cylch trafod gydag undebau llafur, bydd dyfarniad cyflog i staff sy'n gyson â chylch cyflog y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'r Comisiwn wedi gallu sicrhau cytundeb cyflog aml-flwyddyn gyda'i Undeb Llafur eto, felly mae'n defnyddio rhagdybiaeth o 3% ar gyfer amcangyfrifon y blynyddoedd i ddod.

| Disgrifiad | Cyllideb 2025-26 | Cyllideb 2025-26 Atodol #1 | Cyllideb 2026-27 | newid % o gymharu â 2025-26 Atodol #1 |
|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | % |
| **Cyllideb weithredol** | £46.134 | £46.584 | £48.015 | 3.07% |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | £5.600 | £5.600 | £5.627 | 0.48% |
| **Treuliau cysylltiedig ag aelodau**[1] | £22.233 | £22.538 | £35.088 | 55.68% |
| **Treuliau cyn yr etholiad / yn ystod yr etholiad** | £1.000 | £1.000 | £4.500 | 350.00% |
| **Diwygio'r Senedd a Bae 32**[2] | £8.878 | £8.895 | £9.442 | 6.15% |
| **Cyfanswm** | **£83.845** | **£84.617** | **£102,672** | **21.34%** |

[1] Mae hyn yn cynnwys £12.745 miliwn fel cost amcangyfrifedig 36 o Aelodau ychwanegol
[2] Gan eithrio costau sy'n ymwneud â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol

# 3. Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan y Comisiwn i nodi pwysau costau yn y dyfodol gan allu rhagweld digon i'w rheoli. Gallai hyn fod drwy ailgyfeirio adnoddau, newid a rheoli effeithlonrwydd neu, ar yr eithaf, gwneud achos cydlynol gyda thystiolaeth dros ofyn am adnoddau ychwanegol. Mae'r MTRF yn flaenolwg tair blynedd sy'n hysbysu rhanddeiliaid ac yn hwyluso cynllunio priodol. Mae'n cael ei adnewyddu bob blwyddyn cyn paratoi'r gyllideb a hon yw'r drydedd gyllideb a gynhyrchwyd o dan y fframwaith.

Y rhagdybiaeth ar gyfer y tymor canolig yw y bydd gofynion ariannu'r Comisiwn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Felly, mae angen i'r Comisiwn ddeall a lliniaru'r bwlch rhwng y ddau er mwyn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, gan gefnogi'r anghenion busnes craidd ar yr un pryd.

Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r Comisiwn ddangos yn glir beth sy'n sbarduno cynnydd yn ei gyllidebau (yn hytrach na chreu argraff bod llinellau cyllideb 'busnes fel arfer' yn cael eu tyfu'n flynyddol gan swm chwyddiant).

Mae'r Fframwaith yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu. Fframwaith cyllidebol treigl tair blynedd yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'n nodi ystod fanwl o senarios gofynion o ran adnoddau a phwysau o ran costau dros y tair blynedd nesaf. Yna, mae'n gosod sail resymol a realistig ar gyfer gwaith cynllunio cyllideb dros y tymor canolig ('Senario Twf a Reolir').

Fel egwyddor, mae 'Sefydliad Targed' wedi'i ddiffinio (ar gyfer y sefydliad staffio parhaol) i sicrhau bod adnoddau pobl y Comisiwn yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn yr amlen adnoddau sydd ar gael. Mae'n gweithredu fel arf rheoli costau strategol ac yn llywio'r gwaith o reoli adnoddau mewn ffordd ystwyth, effeithiol ac effeithlon. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth (rheolwyr cyllideb) wedi darparu mewnbwn ac adborth strwythuredig ynghylch sut y gall y Comisiwn gyfeirio adnoddau yn briodol at anghenion sefydliadol drwy gynllunio gwasanaethau'n flynyddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newid i Senedd fwy o faint ac mae'n gwrthsefyll llunio'r adnoddau presennol mewn modd llinol.

Ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros fel mesur doethineb a chyflwyno cyllideb weithredol sy'n is na swm y datchwyddydd (3.07% o'i gymharu â 4.07%).

# 4. Staffio

Mae'r rhan fwyaf o wariant refeniw gweithredol y Comisiwn yn ymwneud â chostau staffio (~65%). Ceir ymrwymiad parhaus i ddatblygu a chynnal gweithlu amrywiol, medrus iawn i gefnogi Busnes y Senedd.

Dyfarnwyd dyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2025-26 yn seiliedig ar gylch cyflog y sector cyhoeddus ehangach. Mae cylch cyflog diweddaraf y sector cyhoeddus yng Nghymru yn argymell dyfarniadau cyfartalog o 3.75% yn y flwyddyn gyfredol a 2.2% ar gyfer 2026-27. Mae'r Comisiwn yn cymhwyso'r cylch cyflog i'r flwyddyn gyllideb ddilynol yn hytrach nag ôl-ddyddio ac yn defnyddio'r argymhelliad fel sail i gytuno ar ddyfarniadau cyflog.

Mae adborth o arolwg llesiant diweddar y Comisiwn yn dangos bod 86% o staff yn hapus â'u pecyn cyflog a gwobrwyo. O ystyried bod y cylch cyflog yn argymell dyfarniad 'cyfartalog' o 3.75%, mae dull graddol wedi'i ddefnyddio ar gyfer y dyfarniad sy'n cael ei adlewyrchu yng nghyllideb 2026-27 ar y sail a ganlyn:

Graddau TS i SEO i gael 3.75%

Gradd 7 a Gradd 6 i gael 3.25%

Cyfarwyddwyr a'r Prif Swyddog Gweithredol i gael 3%

O fewn y graddfeydd SEO i Gradd 6, bu rhai addasiadau hefyd i bwyntiau cyflog penodol i sicrhau bod yr holl gynnyddrannau cyflog o leiaf 5%.

O ystyried yr ansicrwydd economaidd parhaus, mae'n ymddangos yn annhebygol y gellir cyflawni cytundeb cyflog aml-flwyddyn ar hyn o bryd. Felly, mae cyllidebau staffio blwyddyn y dyfodol yn tybio cynnydd o 3% at ddibenion cyllidebol (gan nodi y bydd symiau gwirioneddol y dyfarniad cyflog yn destun trafod gyda'r undebau llafur yn y dyfodol a phenderfyniadau gan y Comisiwn).

Mae nifer y gweithwyr yn y sefydliad ar gyfer busnes gweithredol arferol unwaith eto wedi aros ar lefel 2024-25. Yr ymrwymiad a roddir yn y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yw nad oes codiad staffio gweithredol ar gyfer yr hyn a ystyrir yn weithgaredd 'busnes fel arfer'. Pan fo pwysau ar adnoddau, dylid eu hamsugno drwy geisio gwella prosesau a sicrhau arbedion.

Mae'r holl staff ychwanegol ar gyfer rhaglenni (fel y disgrifir uchod) ac ar gyfer y cyfnod pontio etholiadol yn cael eu cyfrif o fewn y cyllidebau unigol hynny sydd wedi'u clustnodi.

Mae Strategaeth Pobl Comisiwn y Senedd newydd gael ei hadnewyddu (Ebrill 25) ac mae'n ganolog i gyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol, gan sicrhau bod gennym weithlu ystwyth sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau cywir i ddarparu gwasanaethau eithriadol i Fusnes ac Aelodau'r Senedd. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â staff Comisiwn y Senedd rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2025 i ymgynghori ar fersiwn ddrafft y strategaeth hon ar ei newydd wedd. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) a strategaethau cyfatebol Comisiwn y Senedd. Fe'i hategir gan ein gwerthoedd sefydliadol, sef parch, angerdd, balchder a chydweithio fel 'Un Tîm'.

Mae'r Cynllun Gweithlu (o fewn y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig) yn ceisio rheoli ac addasu ein cyflenwad staffio yn y tymor canolig i'r tymor hwy i gyd-fynd ag adnoddau a sgiliau i'r meysydd sydd eu hangen. Bydd hyn yn gofyn am ymagwedd soffistigedig ac aeddfed at fapio sgiliau ac ystwythder wrth recriwtio a lleoli staff. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni symud i Senedd fwy ac esblygu ein gofynion staffio ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg ac yn benodol, defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ategu ein hadnoddau.

# 5. Cyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â staff

Mae'r mwyafrif helaeth o gyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â staff o fewn y Comisiwn yn gontractiol, gan gynnwys rhent, ardrethi, rheoli cyfleusterau a chostau sy'n gysylltiedig â TGCh.

Mae llinellau cyllideb contractiol wedi cael eu cynyddu 3% i adlewyrchu cynnydd disgwyliedig mewn chwyddiant. Pan fo'n bryd adnewyddu contractau yn ystod y flwyddyn, gwneir pob ymdrech i gyflawni arbedion a darparu'r gwerth gorau posibl am arian, er gwaethaf pwysau economaidd sy'n anochel yn achosi i gostau gynyddu.

Twf mewn cyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â staff yw 1.51%, gan symud o £13.283 miliwn yn 2025-26 i £13.484 miliwn yn 2026-27.

Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn chwyddiant yn bennaf a symudiad parhaus i ddarpariaeth TGCh ar y cwmwl o ddarpariaeth TGCh ar y safle.

# 6. Diwygio'r Senedd

Cafodd Bil Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Senedd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2024. O fis Ebrill 2026 ymlaen, felly, bydd 96 yn hytrach na 60 o Aelodau o'r Senedd.

Mae cyllidebu ar gyfer y newidiadau yn gymhleth gan y bydd y strwythur cymorth sy'n ofynnol yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

Cynigiodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ddau senario ar gyfer patrwm Busnes y Senedd sydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth lunio rhagdybiaethau ynghylch lefel y gofyn i'r gyllideb.

Mae sawl maes cymorth a fydd yn gweld cynnydd yn y galw o ddiwrnod cyntaf y Senedd newydd, er enghraifft, cymorth TGCh a Chymorth Busnes i'r Aelodau. Fodd bynnag, ni fydd pob rhan o'r Comisiwn o reidrwydd yn gweld unrhyw gynnydd yn y galw ac efallai y bydd y rhai sydd yn gweld cynnydd yn gweld llai na 60% yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir. Yn wir, mae wedi bod yn egwyddor bwysig wrth adeiladu'r gyllideb hon i fyfyrio ar y rhesymeg dros Ddiwygio'r Senedd i gynyddu nifer yr Aelodau yn hytrach na chynyddu maint y Comisiwn.

I'r perwyl hwnnw, mae cynlluniau a rhagdybiaethau gwasanaeth wedi cael eu profi o ran straen ynghylch a yw'r costau disgwyliedig yn anghenion 'diwrnod un' neu'n 'destun penderfyniad'. Mae'r egwyddor hon wedi'i chymhwyso i ragdybiaethau costau 'staff' a chostau 'nad ydynt yn ymwneud â staff'. Mae'r gyllideb yn parhau i fod wedi'i chlustnodi i adlewyrchu'r ansicrwydd fel y gellir dychwelyd cyllid yn hawdd i Floc Cymru os nad oes ei angen.

Yna, bydd cyllideb 2027-28 yn adeiladu ar yr hyn sy'n dod i'r amlwg o Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd fel ei bod yn adlewyrchu'r angen gwirioneddol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'r Aelodau.

Bydd llawer o'r gwaith i ailwampio'r ystad wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2025-26 gyda'r elfennau terfynol wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod diddymu. Felly, mae'r elfen 'Prosiectau' o'r arian clustnodi yn llawer llai nac yn y blynyddoedd blaenorol.

Dangosir nifer y swyddi sydd eu hangen ac y disgwylir bod eu hangen ynghyd â goblygiadau cyllidebol posibl yn y tabl isod.

| | Cyfwerth ag amser llawn | Cyllideb 2026-27 £ miliwn |
|---|---|---|
| Swyddi sydd eisoes yn bodoli | 49.7 | £3.132 |
| Swyddi newydd (o 1 Ebrill 2026) | 8.0 | £0.313 |
| Swyddi newydd – aros am benderfyniadau'r Seithfed Senedd | 38.0 | £1.288 |
| Trosiant / tanwariant tybiedig | | (£0.550) |
| **Cyfanswm** | | **£4.183** |

Mae'r costau nad ydynt yn ymwneud â staff a chostau prosiectau wedi'u nodi yn y tabl isod, wedi'u rhannu unwaith eto rhwng y rhai sy'n gymharol sicr o hysbys a'r rhai a fydd yn dod i'r amlwg, yn esblygu neu'n diflannu yn ystod y flwyddyn ariannol.

| | Cyllideb 2026-27 £ miliwn |
|---|---|
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | £1.436 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff yn aros am benderfyniadau'r Seithfed Senedd | £0.332 |
| Costau prosiectau / ystad | £0.394 |
| **Cyfanswm** | **£2.162** |

# 7. Bae 32

Bydd prosiect Bae 32 yn darparu ystad o ansawdd uchel, hyblyg a chynhwysol ym Mae Caerdydd sy'n rhoi gwerth am arian cyhoeddus wrth fynd i'r afael â gofynion y Senedd, ei Haelodau, eu staff, Llywodraeth Cymru, dinasyddion, y cyfryngau, a Chomisiwn y Senedd yn y tymor byr, canolig a hir.

Mae Prosiect Bae 32 wedi datblygu'n sylweddol ers cyllideb 2025-26. Yn dilyn Adolygiad Gateway llwyddiannus, cymeradwyodd y Comisiwn Achos Busnes Amlinellol cychwynnol ym mis Rhagfyr 2024 sydd wedi caniatáu i broses gaffael gystadleuol fynd rhagddi yn ystod 2025. Disgwylir i wahoddiad i gyflwyno tendrau terfynol gael ei ddyroddi yn hydref 2025, ac i'r canlyniad gael ei gyhoeddi ddechrau 2026. Yr opsiwn a ffefrir fydd yr ateb sy'n bodloni gofynion y Comisiwn orau ac sy'n cynnig y gwerth gorau am arian i'r trethdalwr.

Mae'r costau amcangyfrifedig yng nghyllideb 2026-27 yn ymwneud â gwasanaethau proffesiynol i'r cynigydd llwyddiannus ddatblygu ei ddyluniadau cysyniad hyd at lefel o aeddfedrwydd a hyder costio a fydd yn caniatáu i'r Comisiwn ystyried Achos Busnes Llawn yn ystod 2026.

Mae costau dangosol yn y dyfodol hefyd wedi'u heithrio hyd nes y cadarnheir yr ateb buddugol a'r strwythur masnachol cysylltiedig ac amserlenni'r prosiect a fydd i gyd yn effeithio ar ofynion cyllido yn y dyfodol, ac y rhagwelir y byddant yn dod yn hysbys yn ystod 2026; fodd bynnag, nid oes unrhyw fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei dybio ar hyn o bryd.

Mae'n debygol iawn y bydd angen i'r Comisiwn ailbrisio'r ased 'Hawl i Ddefnyddio' a ddelir mewn perthynas â Thŷ Hywel ar ddiwedd y broses gaffael ac y bydd cyfalaf sylweddol yn mynd i Gronfa Gyfunol Cymru (~£40 miliwn). O ystyried bod canlyniad y prosiect yn ansicr ar hyn o bryd, bydd yr addasiad hwn, os bydd yn codi, yn cael ei drin drwy gyllideb atodol yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27.

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y rhaglen waith hon ar gyfer 2025-26, fel yn achos rhaglen Diwygio'r Senedd, wedi'i chlustnodi fel bod costau ar wahân ac yn dryloyw. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd nifer y cerrig milltir sy'n weddill yn ystod 2025-26. Mae clustnodi yn sicrhau tryloywder ac yn golygu bod unrhyw gyllid heb ei ddefnyddio yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw'n cael ei addasu ar gyfer gweithgarwch gweithredol.

# 8. Cronfa Prosiectau

Mae'r Comisiwn yn cynnal Cronfa Prosiectau er mwyn rheoli gwariant y tu hwnt i'r cyllidebau gwasanaeth dirprwyedig, gan gynnwys adnewyddu cylch bywyd ar gyfer seilwaith TGCh, darlledu ac ystadau.

Rheolir y Gronfa Prosiectau gan Grŵp Rheoli Prosiectau (PMG). Dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Ariannol gyda chefnogaeth gan banel o bob rhan o'r Comisiwn, mae'r Grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod portffolio'r prosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn, yn cael adnoddau priodol, yn rhoi gwerth am arian a bod prosiectau'n cael eu cyflwyno i amserlenni a manyleb y cytunwyd arnynt. Mae'r dull hwn yn cyflawni:

- gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- llai o risg; ac
- amcan strategol cynaliadwyedd y Comisiwn.

Mae'r Grŵp Rheoli Prosiect yn argymell i'r Bwrdd Gweithredol pa brosiectau y dylid eu blaenoriaethu, yn monitro i ba raddau y cânt eu cyflawni, ac yn defnyddio dull ystwyth o ymateb i newidiadau a phroblemau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r strategaeth ar gyfer rheoli cyllid wedi'i nodi mewn Strategaeth Bortffolio sy'n nodi:

- gweledigaeth a nodau y cytunwyd arnynt ar gyfer portffolio'r prosiect;
- yr ysgogiadau gwerth a ddefnyddir i lywio blaenoriaethu'r portffolio; a'r
- prif risgiau, amlen adnoddau ac amseriadau.

Mae'r strategaeth hon yn hwyluso'r dyraniad a, lle bo'n berthnasol, ail-bwrpasu neu ail-flaenoriaethu cyllid i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau i sicrhau gwerth am arian.

Nododd proses yr MTRF gyfnod o bwysau sylweddol a pharhaus ar y Gronfa Prosiectau yn 2025-26 i 2027-28 oherwydd nifer yr eitemau sylweddol a adnewyddir yn sgil cylch bywyd yn dod yn sgil hynny, yn ogystal â'r cylch gwaith mwy arferol. Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw i estyn bywyd defnyddiol gweithfeydd a seilwaith mawr lle bo hynny'n bosibl, a bydd yn ystyried a ellir defnyddio offer a chyfarpar sy'n dod tuag at ddiwedd ei oes

weithredol ymhellach. Gallai canlyniad caffael Bae 32 hefyd newid y cyd-destun o ran ystyried a blaenoriaethu'r gwaith o adnewyddu peiriannau ac offer.

Y prosiectau allweddol a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer eu blaenoriaethu yn ystod 2026-27 yw:

- Unedau Trin Aer
- Amnewid peiriannau oeri
- Generaduron wrth gefn
- Uwchraddio lifftiau
- Diweddaru seilwaith TGCh; ynghyd â
- Chwblhau prosiectau amlflwyddyn a ddechreuwyd yn 2025-26.

Mae'r rhain yn ychwanegol at amserlen o eitemau â blaenoriaeth sy'n ymwneud â'r flaenraglen waith cynnal a chadw / atgyweirio i seilwaith TGCh a'r ystad a fydd yn cael ei hasesu yn gynnar yn 2026-27 ar gyfer cyllid.

# 9. Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad

Mae etholiad yn arwain at sawl eitem wariant a ddisgwylir, sy'n werthfawr ac na ellir ei hamsugno o fewn cyllideb weithredol y Comisiwn.

Mae cyllideb o £4.5 miliwn wedi'i chlustnodi i dalu'r costau hyn.

Defnyddir y gyllideb hon yn bennaf ar gyfer talu costau terfynu swyddi'r Aelodau hynny na chânt eu hail-ethol (drwy grant ailsefydlu) a chostau'r taliadau diswyddo ar gyfer eu staff cymorth. Bydd hefyd yn talu cost 'lwfansau dirwyn i ben' sydd wedi'u cyflwyno gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer diwedd y Senedd bresennol. Bydd taliadau yn cyfateb i ddau fis o gyflog i'r Aelodau hynny sy'n sefyll i lawr a thri mis i'r rhai nad ydynt yn cael eu dychwelyd.

Bydd y gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio i ddarparu offer a meddalwedd TGCh i bob Aelod newydd o'r Senedd, i dalu costau'r agoriad swyddogol ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol o ran llety.

Mae costau caledwedd TGCh bron wedi dyblu mewn pris ers yr etholiad diwethaf, yn dilyn y pandemig a chyfnod o chwyddiant uchel. Gyda ffyrdd presennol o weithio yn ddibynnol iawn ar seilwaith TGCh, mae'r costau hyn yn anochel gan ei bod yn hanfodol bod gan yr Aelodau yr offer i gyflawni eu rolau. Mae'r elfen TGCh o'r gyllideb hon yn ymwneud â 60 Aelod, ac mae'r costau ar gyfer y 36 ychwanegol yn rhan o'r gyllideb sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer Diwygio'r Senedd.

Bydd costau ymgysylltu hefyd yn gysylltiedig ag ehangu'r Senedd a hyrwyddo'r newid i'r etholwyr.

Drwy gynnwys hwn fel cyllideb ar wahân, mae'r costau penodol sy'n ymwneud â'r etholiad a gaiff eu talu o'r gyllideb yn dryloyw ac yn hawdd eu nodi. Bydd unrhyw gronfeydd dros ben ar ôl talu'r holl gostau yn cael eu talu'n ôl i Gronfa Gyfunol Cymru. Gallai unrhyw ddiffyg yn y gyllideb hon olygu efallai y byddai angen cyllid drwy Gyllideb Atodol.

# 10. Cynaliadwyedd

Mae'r cynlluniau ariannol a darparu gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a'r tymor hwy i gyd o fewn cyd-destun bod yn sefydliad gwirioneddol gynaliadwy.

Comisiwn y Senedd oedd un o'r sefydliadau cyhoeddus cyntaf i lunio strategaeth yn manylu ar ymateb arfaethedig i'r Argyfwng Hinsawdd a chynllun i ddod yn garbon niwtral net. Yn ystod 2026-27, o ystyried y bydd pwyntiau penderfynu allweddol ynghylch prosiect Bae 32 wedi'u cyrraedd, bydd y Strategaeth Carbon Niwtral yn cael ei hadnewyddu a'i diweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod mwy o sicrwydd ynghylch yr ateb llety yn y dyfodol yn ogystal â'r Senedd fwy.

Mae'r gwaith o gyflwyno goleuadau LED bellach bron wedi'i gwblhau yn Nhŷ Hywel, ond mae cynllun i adeiladau'r Senedd a'r Pierhead gael rhagor o oleuadau newydd, os bydd adnoddau'n caniatáu, er mwyn lleihau'r defnydd o drydan ymhellach.  Hefyd, fel y mae pethau ar hyn o bryd, yn dibynnu ar benderfyniadau ynghylch adeilad y swyddfa, bydd yr unedau trin aer yn Nhŷ Hywel yn cael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen adnewyddu cylch bywyd. Byddai'r rhain ar gyfer unedau mwy effeithlon sydd hefyd yn lleihau'r defnydd o ynni. Cymeradwywyd y ddau brosiect i ddechrau fel rhan o'r Strategaeth Carbon Niwtral.

Ar ôl yr etholiad, bydd y Comisiwn yn defnyddio'r trefniadau swyddfa newydd yn Nhŷ Hywel yn llawn. O feddwl am gynaliadwyedd wrth ei ddatblygu, bydd yn bosibl dadansoddi data monitro o unrhyw gynnydd yn y defnydd o gyfleustodau, er enghraifft.

Yn ystod 2024-25, cyfnod pan oedd yr ystad ychydig yn brysurach na'r flwyddyn flaenorol, bu cynnydd yn y galw am wresogi ac felly'r defnydd o nwy. Roedd cynnydd mewn teithio hefyd – gan Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn. Fodd bynnag, gostyngodd y defnydd o drydan, sy'n adlewyrchu mesurau effeithlonrwydd parhaus o amgylch yr ystad. Y defnydd o nwy ac allyriadau teithio felly fydd y ffocws o hyn ymlaen.

Mae'r Comisiwn yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf iddo'i hun. Am y rheswm hwn, cynhelir system rheoli amgylcheddol. Caiff ei archwilio'n allanol i weld a yw'n cydymffurfio ag ISO14001.  Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru a seneddau eraill y Deyrnas Unedig, er mwyn rhannu arfer gorau a gwella'r amgylchedd yn barhaus.

# 11. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae'r ffocws ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau sy'n dod i'r Senedd yn 2026 a chynyddu dealltwriaeth o rôl y Senedd. Bydd y gwaith hwn yn datblygu ymhellach yn chwarter cyntaf 2026-27, i hysbysu'r cyhoedd cyn etholiad mis Mai.

Bydd buddsoddi mewn deall cynulleidfaoedd yn sicrhau bod yr ymgyrch ymgysylltu yn darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar bobl ar y sianeli lle y maent yn fwyaf tebygol o ryngweithio â hi. Mae hyn wedi cynnwys gwella methodoleg gwerthuso, ymgymryd â phleidleisio cynulleidfaoedd a grwpiau ffocws; ac mae'n gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio adnoddau mor effeithiol â phosibl.

Mae ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi'i gynyddu i gefnogi'r ymgyrch. Mae hyn wedi cynnwys bod yn bresennol mewn rhai sioeau llai, fel Sioe Awyr Cymru, Gŵyl Fwyd Caernarfon a Sioe Sir Benfro am y tro cyntaf. Mae ffocws hefyd wedi newid i sesiynau addysg mewn ysgolion uwchradd a cholegau i gyrraedd y rhai a fydd yn pleidleisio am y tro cyntaf.

Ddechrau 2026-27, bydd presenoldeb mewn cymunedau lleol yn cael ei gynyddu i gyrraedd y rhai sy'n llai tebygol o fod wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Ystyrir bod rhyngweithio wyneb yn wyneb yn bwysicach fyth wrth i'r cyfryngau cymdeithasol a thirwedd y cyfryngau yng Nghymru ddod yn fwy hollt.

Bydd y gwaith ymgysylltu pwysig hwn yn sail i fuddsoddiad mewn ymgyrch farchnata o ddechrau 2026 i dynnu sylw at ddyddiad yr etholiad a rôl y Senedd fel llais cymunedau Cymru pan wneir penderfyniadau ar faterion fel gofal iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Bydd hyn yn rhoi hwb mawr i gyrhaeddiad negeseuon gyda'r nod o sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn ymwybodol o'u cyfle i lunio'r Senedd nesaf.

Mae pwysigrwydd buddsoddi'n ddoeth yn ein hymdrechion i hysbysu'r cyhoedd yn hollbwysig. Mae ein systemau gwerthuso yn parhau i gael eu cryfhau a byddant yn cadw perfformiad yr ymgyrch o dan adolygiad manwl a chyson – gyda'r cyfleuster i newid dulliau cyfathrebu i gyflawni'r canlyniadau gorau a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i barhau i wella ymdrechion.

Mae grŵp cyfathrebu wedi'i sefydlu gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol, Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac awdurdodau lleol i gydlynu gweithgareddau ar gyfer yr etholiad. Mae hyn yn sicrhau arbedion

drwy osgoi dyblygu – er enghraifft, bydd llyfryn cartref y Comisiwn Etholiadol bellach yn cynnwys gwybodaeth am y Senedd, er mwyn gwneud arbedion ar hysbysiad ar wahân, ac mae taflenni Comisiwn y Senedd yn cael eu defnyddio yn hysbysiadau'r Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol er mwyn osgoi negeseuon cymysg i gynulleidfaoedd. Bydd effeithiolrwydd y grŵp yn cael ei werthuso ar ôl yr etholiad.

Ar ôl yr etholiad, ymdrechir yn 2026-27 i gyflwyno Senedd newydd, ddiwygiedig i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ddeall pwy yw'r Aelodau newydd, a'u rôl. Bydd Agoriad Swyddogol y Senedd yn allweddol yn hyn o beth, a fydd yn arddangos Senedd gryfach a'i huchelgeisiau i gyflawni dros bobl Cymru. Bydd Senedd Ieuenctid Cymru hefyd yn ailddechrau ei thrydydd tymor ac yn parhau i ganolbwyntio ar ei thri maes blaenoriaeth: costau byw a thlodi, trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol; a throsedd a diogelwch.

Parheir i fuddsoddi yn yr offer a'r dechnoleg sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Cymru yn y tymor hir, fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd. Mae hyn yn cynnwys parhau i gyflwyno system CRM newydd ac offer ymgysylltu ar-lein gan weithio'n effeithlon i symleiddio prosesau a chyfathrebu. Mae gweithredu system CRM ochr yn ochr ag offer ymgysylltu ar-lein yn grymuso cysylltiadau parhaus, ystyrlon â phobl Cymru drwy bersonoli rhyngweithio a galluogi meithrin perthynas hirdymor.

# 12. Llywodraethiant a Rheolaeth Ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol.

Fel rhan o'i rôl, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dangos diddordeb mawr yn yr amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwylio. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol; mae'n ymddiddori'n frwd wrth archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwylio a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae'r timau archwilio allanol a mewnol yn ffynonellau sicrwydd pwysig i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn a chaiff gymorth yn ei waith gan Archwilio Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, cyhoeddwyd barn ddiamod mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Yn 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd Ddatganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i'w hystyried wrth lunio eu hamcangyfrifon cyllideb blynyddol. Mae'r Comisiwn wedi cofio'r egwyddorion hyn wrth lunio ei amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2026-27. Mae'r amcangyfrif yn dryloyw a rhoddir tystiolaeth o'r angen am yr adnoddau y gofynnir amdanynt a'r budd ohonynt yn naratif y ddogfen hon.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb strategol am sicrhau y caiff adnoddau'r Comisiwn eu defnyddio'n effeithiol, mae'n rhoi her i arweinwyr gwasanaeth ymdrechu i wella'n barhaus ac yn arwain ymdrechion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blynyddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiad yn y ffordd orau. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ac mae'n darparu gwaith llywodraethu a sicrwydd ar gyfer prosiectau newid o bwys.

# 13. Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff cymorth, a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd yn pennu'r cyllid sydd ar gael i dalu am y treuliau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a chyflawni eu dyletswyddau seneddol, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau yn ymwneud â staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys);
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Mae'r Penderfyniad yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau a chyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Mae'r Penderfyniad hefyd yn pennu'r dull ar gyfer codiadau i'r cyflogau hyn; yn 2026-27 disgwylir y bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu yn unol â'r enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ("ASHE"). Mae cyflog sylfaenol yr Aelodau ar ddechrau 2026-27 wedi'i gyllidebu ar £80,199 sy'n tybio cynnydd o 5% ar y lefel gyflog bresennol o £76,380 (y ffigur ASHE ar gyfer mis Hydref 2024 oedd 6%. Fodd bynnag, gan fod uchafbwynt chwyddiant uchel bellach yn y gorffennol, disgwylir y bydd ASHE yn dechrau dychwelyd i ostwng yn ôl yn unol â chyfraddau hanesyddol)

Cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd ym mis Gorffennaf 2025. Bydd codiadau yn cael eu cymhwyso i'r llinellau sylfaen presennol, sydd wedi'u hamcangyfrif at ddiben y gyllideb hon fel 5% ar gyfer ASHE a 3% ar gyfer CPI.

Wrth gyfrifo'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad 2026-27, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn flwyddyn etholiadol ac yn un o newid mawr. Mae'r gyllideb yn ~12% yn is na chost lawn amcangyfrifedig bosibl y darpariaethau yn y Penderfyniad. Mae hyn yn gyson â phrofiad yn y Seneddau blaenorol pan fo gwariant wedi bod yn isel yn y flwyddyn gyntaf ac wedi cynyddu'n raddol dros y tymor. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu y bydd Aelodau newydd yn cymryd amser i sefydlu swyddfeydd a

recriwtio staff cymorth. Yn yr un modd, bydd cyfnod o amser pan na fydd cyflogau Deiliaid Swyddi yn cael eu talu a phan fydd cyflogau i'r Aelodau hynny sy'n sefyll i lawr yn dod i ben. Bydd taliadau dirwyn i ben a wneir i'r Aelodau nad ydynt yn cael eu dychwelyd yn cael eu codi ar gyllideb yr Etholiad.

Ar gyfer 2026-27 yn unig, mae'r gyllideb wedi'i rhannu i gydnabod cost 60 Aelod o fewn y gyllideb weithredol a'r 36 o Aelodau ychwanegol fel llinell ar wahân yn y gyllideb sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd.

Gall yr Aelodau gyflogi staff i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Mae gan grwpiau gwleidyddol hawl hefyd i gyllid ar gyfer staff y grŵp. Cafodd y cap ar gyflogau staff cymorth ei ddileu ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. O ystyried y ffigur ASHE blaenorol o 5.7% (Hydref 2024), mae'r gyllideb wedi tybio cynnydd o 5% ar gyfer 2026-27.

Mae'r Penderfyniad yn nodi'r ystod o gostau a lwfansau y gall Aelodau eu hawlio i redeg eu swyddfeydd a chyflawni eu dyletswyddau. At ddibenion cyllidebu, y ffactor chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer 2026-27 yw 3% ar gyfer lwfansau (lle bo'n berthnasol) gyda chynnydd chwyddiant o 2.5% wedi'i gymhwyso i'r ddwy flynedd ganlynol. Er bod Banc Lloegr yn disgwyl i chwyddiant ddychwelyd i'r gyfradd darged (2%) ar gyfer blynyddoedd ariannol ar ôl 2025-26, mae hyn yn adlewyrchu bod disgwyl i'r gostyngiad yng nghyfradd chwyddiant hyd yma fod yn is na'r disgwyl.

Dangosir y gyllideb i ariannu'r Penderfyniad ar gyfer 2026-27 a'r ddwy flynedd ddilynol (gan gynnwys effaith Diwygio'r Senedd) yn Nhabl 9.

Darperir cymorth uniongyrchol i'r Bwrdd gan y Comisiwn fel sy'n ofynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Ers 2022-23, mae cost y cymorth hwn wedi'i chlustnodi yng nghyllideb y Comisiwn i wella tryloywder; mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer ysgrifenyddiaeth heb ei newid. Yn ogystal, telir ffioedd a threuliau teithio i aelodau'r Bwrdd. Mae gwariant arall yn cynnwys eitemau megis comisiynu arbenigedd allanol. Rhoddir manylion yn Nhabl 11.

# 14. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer y Senedd yn 2026-27, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

***Tabl 1: Cyllideb 2026-27 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion***

| **Gofynion y Senedd** | **2026-27 £000** |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn cysylltiad â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn cysylltiad â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a gwariant mewn cysylltiad â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd | £102,672<br>(Tabl 2) |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd | £85<br>(Tabl 8) |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill. | £98,975<br>(Tabl 3) |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

***Tabl 2: Trosolwg o'r Gyllideb***

| Pennawd y Gyllideb | 2025-26 (Atodol #1) £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | | | | |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4) | £32,801 | £34,031 | £35,052 | £36,104 |
| Llety a chyfleusterau (Tabl 5) | £6,229 | £6,399 | £6,546 | £6,698 |
| Costau TGCh (Tabl 6) | £2,944 | £3,534 | £3,603 | £3,661 |
| Costau eraill (Tabl 7) | £2,172 | £2,136 | £2,160 | £2,174 |
| Cyfanswm Gwariant Refeniw | **£44,146** | **£46,100** | **£47,361** | **£48,637** |
| Cyfanswm Incwm (Tabl 8) | (£61) | (£85) | (£85) | (£85) |
| Gwariant Cyfalaf | £500 | £500 | £500 | £500 |
| Cronfa Prosiectau | £2,000 | £1,500 | £1,500 | £1,500 |
| Cyfanswm yr Adnoddau Gweithredol | **£46,585** | **£48,015** | **£49,276** | **£50,552** |
| Taliadau Llog | £600 | £600 | £600 | £600 |
| Taliadau Dibrisiant | £5,000 | £5,027 | £5,027 | £5,027 |
| Cyllidebau prosiect wedi'u clustnodi | | | | |
| Costau Diwygio'r Senedd | £6,494 | £6,345 | £6,780 | £6,982 |
| Bae 32 | £2,401 | £3,097 | £1,004 | £745 |
| Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | **£61,080** | **£63,084** | **£62,687** | **£63,906** |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau | | | | |
| Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9) (yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau) | £20,823 | £21,232 | £23,098 | £23,939 |
| Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd (Tabl 9) | £0 | £12,739 | £13,859 | £14,364 |
| Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau (Tabl 10) | £106 | £110 | £112 | £115 |

| Pennawd y Gyllideb | 2025-26 (Atodol #1) £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (Tabl 11) | £609 | £607 | £620 | £641 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad | £1,000 | £4,500 | £0 | £0 |
| Costau cyllid pensiwn Aelodau | £1,000 | £400 | £400 | £400 |
| Cyfanswm Cyllideb Comisiwn y Senedd | £84,618 | £102,672 | £100,775 | £103,365 |

***Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru***

| Gofyniad arian parod net | 2026-27 £000 |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £21,232 |
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau – Diwygio'r Senedd | £12,739 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | £110 |
| Costau cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol | £607 |
| Costau refeniw Diwygio'r Senedd | £4,956 |
| Costau refeniw Bae 32 | £254 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £53,142 |
| Gofyniad cyfalaf net (gan gynnwys Diwygio'r Senedd a Bae 32) | £6,161 |
| Costau refeniw gwariant etholiadol | £3,071 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £400 |
| **Is-gyfanswm** | **£102,672** |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (£5,027) |
| Taliadau llog / addasiadau cyfalaf yn ymwneud ag IFRS 16 | (£600) |
| Taliadau rhent yn ymwneud ag IFRS 16 | £2,330 |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (£400) |
| **Is-gyfanswm** | **(£3,697)** |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru | £98,975 |

# Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

***Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig***

| | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 | 2028-29<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff y Comisiwn | £33,801 | £35,049 | £36,144 | £37,380 |
| Amcangyfrif swydd wag | (£1,000) | (£1,018) | (£1,092) | (£1,276) |
| **Cyfanswm** | **£32,801** | **£34,031** | **£35,052** | **£36,104** |

***Tabl 5: Dadansoddiad o Gostau Llety a Chyfleusterau***

| | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 | 2028-29<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent ac ardrethi gan gynnwys maes parcio (wedi'i addasu ar gyfer IFRS 16) | £1,930 | £1,960 | £2,004 | £2,048 |
| Cynnal a chadw a gwaith | £1,110 | £1,128 | £1,128 | £1,128 |
| Diogelwch | £949 | £1,016 | £1,054 | £1,094 |
| Cyfleustodau | £1,039 | £1,039 | £1,070 | £1,102 |
| Glanhau | £643 | £698 | £719 | £741 |
| Arlwyo | £453 | £453 | £467 | £481 |
| Rhentu llungopiwyr | £40 | £40 | £40 | £40 |
| Dodrefn a Gosodiadau | £65 | £65 | £65 | £65 |
| **Cyfanswm** | **£6,229** | **£6,399** | **£6,546** | **£6,698** |

***Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh***

| | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 | 2028-29<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TGCh | £731 | £727 | £734 | £738 |
| Darlledu | £870 | £964 | £964 | £964 |
| Trwyddedu a Chynnal a Chadw | £1,243 | £1,743 | £1,795 | £1,849 |
| Refeniw a Defnyddiau Traul | £100 | £100 | £110 | £110 |
| **Cyfanswm** | **£2,944** | **£3,534** | **£3,603** | **£3,661** |

***Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill***

| | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant a datblygu | £312 | £312 | £312 | £312 |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | £305 | £308 | £318 | £318 |
| Gwasanaethau iaith ar gontract allanol | £305 | £302 | £302 | £302 |
| Costau Adnoddau Dynol eraill | £172 | £175 | £177 | £179 |
| Yswiriant a chostau cyfreithiol | £162 | £155 | £166 | £177 |
| Archwilio | £135 | £135 | £135 | £135 |
| Cyhoeddiadau | £146 | £148 | £148 | £148 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | £108 | £108 | £108 | £108 |
| Teithio a chynhaliaeth arall | £95 | £95 | £95 | £95 |
| Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol | £32 | £73 | £74 | £75 |
| Cyngor arbenigol | £146 | £71 | £71 | £71 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio | £58 | £58 | £58 | £58 |
| Ymgynghori | £50 | £50 | £50 | £50 |
| Ymgysylltu academaidd | £30 | £30 | £30 | £30 |
| Lletygarwch | £24 | £24 | £24 | £24 |
| Fetio | £22 | £22 | £22 | £22 |
| Gwisgoedd a dillad | £15 | £15 | £15 | £15 |
| Eitemau eraill <£20k | £55 | £55 | £55 | £55 |
| Cyfanswm | **£2,172** | **£2,136** | **£2,160** | **£2,174** |

***Tabl 8: Dadansoddiad o Incwm***

| | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiannau – siop y Senedd | (£20) | (£15) | (£15) | (£15) |
| Llety – incwm rhentu | (£19) | (£60) | (£60) | (£60) |
| Incwm arall | (£22) | (£10) | (£10) | (£10) |
| Cyfanswm | **(£61)** | **(£85)** | **(£85)** | **(£85)** |

***Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau Aelodau a'r costau cysylltiedig***

| | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 | 2028-29<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau | £6,841 | £7,284 | £7,503 | £7,728 |
| Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau | £11,808 | £13,043 | £13,435 | £13,838 |
| Lwfansau a chostau swyddfa | £2,674 | £3,432 | £3,535 | £3,624 |
| Tanwariant disgwyliedig | (£500) | (£2,527) | (£1,375) | (£1,250) |
| Is-gyfanswm – 60 Aelod | **£20,823** | **£21,232** | **£23,098** | **£23,939** |
| | | | | |
| Costau ychwanegol ar gyfer 36 o Aelodau newydd | | | | |
| Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau | - | £4,371 | £4,502 | £4,637 |
| Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau | - | £7,826 | £8,061 | £8,303 |
| Lwfansau a chostau swyddfa | - | £2,059 | £2,121 | £2,174 |
| Tanwariant disgwyliedig | - | (£1,517) | (£825) | (£750) |
| Is-gyfanswm – 36 o Aelodau ychwanegol | - | **£12,739** | **£13,859** | **£14,364** |
| Cyfanswm gan gynnwys 36 o Aelodau ychwanegol | **£20,823** | **£33,972** | **£36,956** | **£38,303** |

***Tabl 10: Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau***

| | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 | 2028-29<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £80 | £84 | £86 | £89 |
| Cyngor Cyfreithiol | £26 | £26 | £26 | £26 |
| Cyfanswm | **£106** | **£110** | **£112** | **£115** |

***Tabl 11: Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol***

| | 2025-26<br><br>£000 | 2026-27<br><br>£000 | 2027-28<br><br>£000 | 2028-29<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £511 | £527 | £542 | £563 |
| Ffioedd a Threuliau | £47 | £47 | £47 | £47 |
| Costau a threuliau eraill | £51 | £32 | £31 | £31 |
| Cyfanswm | £609 | £607 | £620 | £641 |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales